# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon CWLS2 14-04(p 6)

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2004

Amser: 9.00am – 12.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad Gan Y Cadeirydd Ar Gyfarfod Pwyllgor Y Rhanbarthau

### Diben

1. Bydd y Cadeirydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar yr hyn sy'n digwydd ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ar ôl iddi fynd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ddiweddar.

### Y Cefndir

2. Sefydlwyd Pwyllgor Ewropeaidd y Rhanbarthau gan Gytundeb Maastricht a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 1994. Mae'r Pwyllgor yn ymgynghori ar gydlyniant economaidd a chymdeithasol, ac ar rwydweithiau rhyng-Ewropeaidd ym meysydd trafnidiaeth, ynni a thelegyfathrebu, iechyd y cyhoedd, addysg a ieuenctid a diwylliant. Mae hefyd yn ymgynghori ar gyflogaeth, polisi cymdeithasol, yr amgylchedd a thrafnidiaeth.

### Aelodau'r Deyrnas Unedig

3. Mae 24 o gynrychiolwyr y DU sydd wedi'u hethol yn lleol a 24 o aelodau eraill sy'n eilyddion ar sail eu plaid wleidyddol yn hytrach na'u rhanbarth. Mae Rosemary Butler AC yn Aelod llawn sy'n cynrychioli'r Deyrnas Unedig

Rosemary Butler AC

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon